

Cynhadledd Ryngwladol  
ar leithoedd Lleiafrifol

---

**ICML XIX**  
**CYMRU**WALES

**21.06.23 – 24.06.23**

CAERFYRDDIN/CARMARTHEN

---

**International Conference  
on Minority Languages**



**Prifysgol Cymru**  
Y Drindod Dewi Sant  
**University of Wales**  
Trinity Saint David



**Canolfan Uwchefrydiau Cymreig  
a Cheltaidd Prifysgol Cymru**  
**University of Wales Centre for  
Advanced Welsh and Celtic Studies**

# CROESO

Mae'n bleser gennyf eich croesawu i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, i Sir Gâr ac i Gymru ar gyfer y XIX Cynhadledd Ryngwladol ar leithoedd Lleiafrifol.

Mae hi'n ddeng mlynedd ar hugain ers i'r Gynhadledd gael ei chynnal yma yng Nghymru. Dros y tri degawd diwethaf, mae tirlun ein hieithoedd ni i gyd wedi newid yn sylweddol: gwelwyd peuoedd ieithyddol yn ymestyn ac yn crebachu; llwyddwyd i ennill statws swyddogol mewn rhai mannau ond mae'r ymgyrch yn parhau mewn mannau eraill; mae niferoedd a chanrannau siaradwyr wedi codi mewn rhai ardaloedd ac wedi gostwng mewn ardaloedd eraill; daeth patrymau defnydd dyddiol yn fwy cymhleth ac mae technoleg wedi trawsnewid y ffordd rydym yn cyfathrebu; mae ein cymunedau o siaradwyr yn gynyddol amrywiol, yn aml ar wasgar, ac yn byw mewn cyd-destunau gwledig a dinesig fel ei gilydd

Ledled y byd, mae ein hieithoedd a'n cymunedau yn wynebu heriau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, technolegol ac amgylcheddol.

Mae gan ymchwilwyr rôl allweddol i'w chwarae wrth ymateb i'r heriau hyn, fel sydd gan wleidyddion, llunwyr polisi, ymarferwyr, cymunedau, ymgyrchwyr, busnesau a sefydliadau. Fel prifysgolion, mae gennym gyfrifoldeb i gyfrannu at hyfywedd ein hieithoedd, nid yn unig drwy ein rhaglenni dysgu a'n gwaith ymchwil, ond drwy bob agwedd ar ein gweithgaredd, ein cynllunio strategol, ein buddsoddiad economaidd, ein cenadwri sifig a'n partneriaethau gyda'r gymuned a rhan-ddeiliaid eraill.

Wrth eich croesawu i'r campws yng Nghaerfyrddin, dyma gyfle i amlygu rhai o'r partneriaethau hyn: dyma ble mae prif swyddfeydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Theatr Genedlaethol Cymru. Gan y Brifysgol y sefydlwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ac yn 2018 agorwyd Canolfan S4C Yr Egin, ble lleolir pencadlys S4C a swyddfeydd dros 20 o gwmnïau a chyrrff yn y sector creadigol a digidol, gan gynnwys yr Urdd a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Un o'n hamcanion wrth gynnal y Gynhadledd yng Nghymru oedd cynnig profiad sosioieithyddol

# WELCOME

It is my pleasure to welcome you to the University of Wales Trinity Saint David, to Sir Gâr Carmarthenshire and to Wales for the XIX International Conference on Minority Languages.

It is thirty years since the Conference was last held in Wales. Over the past three decades the landscape of all of our languages has changed considerably: domains have expanded as well as contracted, official status has been achieved in some places and is still being campaigned for elsewhere, the numbers and percentages of speakers have increased in some areas and decreased in others, the patterns of daily use are becoming more complex, technology has transformed communication and our communities of speakers are increasingly diverse and often dispersed, living in both rural and urban contexts.

Across the globe, our languages and communities face a range of political, social, economic, technological and environmental challenges.

Researchers have a key role to play in responding to these challenges, as do politicians, policy makers, practitioners, communities, activists, businesses and institutions. Universities, like ours, have a responsibility to contribute to the vitality of our languages, not only through our teaching and research, but also in every aspect of our activity, our strategic planning, our economic investment, our civic mission, our partnerships with the community and other stake-holders.

As we welcome you to the Carmarthen campus, we can highlight some of these partnerships: the head offices of Coleg Cymraeg Cenedlaethol and Theatr Genedlaethol Cymru are located here and the National Centre for Learning Welsh was established by the University. In 2018 Canolfan S4C Yr Egin was opened, home to the headquarters of S4C along with over 20 companies and organizations who work in the creative and digital sectors, including yr Urdd and the Arts Council of Wales.

One of our aims in hosting the Conference in Wales was to offer delegates a real socio-linguistic experience of Welsh in its contemporary environment and an opportunity to

byw o'r Gymraeg heddiw i'r cynadleddwyr a chyfle i rwydweithio ac adeiladu cysylltiadau rhwng ymchwilwyr ac ymarferwyr. Cawsom ymateb heb ei ail gan ein partneriaid yn Sir Gâr ac yn genedlaethol, ac rydym yn ymfalchïo yn eu cyfraniad at gyfoeth y rhaglen.

Estynnwn groeso cynnes hefyd i Weinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles, ac i'n pedwar siaradwr gwadd rhyngwladol: yr Athro Vesna Crnić-Grotić, yr Athro Durk Gorter, Rosa Angelica Ramirez Rodriguez a'r Athro Fernand de Varennes.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Pwyllgor Academaidd Rhyngwladol o dan gadeiryddiaeth yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, y Consortiwm Trefnu ar draws y Brifysgol a'n sefydliadau partner am eu gwaith caled yn curadu'r Gynhadledd hon.

Mae gennym dridiau llawn: dros 130 o bapurau academaidd, paneli a phosteri gan siaradwyr hynod brofiadol ac ymchwilwyr gyrfa gynnar, o sawl gwlad a chyfandir. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bob un sydd am rannu eu gwaith yn ystod y Gynhadledd. Mae'r cyfnewid rhyngwladol hwn – o brofiadau, syniadau, theorïau, methodolegau, astudiaethau achos, cyd-destunau, canlyniadau a chasgliadau – yn holl bwysig wrth i ni geisio sicrhau dyfodol cynaliadwy i'n hieithoedd ac i amrywiaeth ieithyddol drwy'r byd.

Dymunaf bob llwyddiant i'r XIX Cynhadledd Ryngwladol ar leithoedd Lleiafrifol.

**Yr Athro Medwin Hughes DL DPhil DPS FRSA**

**Is-Ganghellor Prifysgol Cymru a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.**

network and build connections between researchers and practitioners. Our partners in Carmarthenshire and nationally have been extremely supportive and we very much appreciate their contribution to the richness of the programme.

We are also very pleased to welcome the Minister for Education and Welsh Language, Jeremy Miles, and our four international plenary speakers Professor Vesna Crnić-Grotić, Professor Durk Gorter, Rosa Angelica Ramirez Rodriguez and Professor Fernand de Varennes.

I would like to thank the International Scientific Committee chaired by Professor Elin Haf Gruffydd Jones, the Organising Consortium across the University and our partner institutions for their hard work in curating this Conference.

We have three full days: over 130 academic papers, panels and posters presented by established speakers and early career researchers, from many countries and continents. I would like to thank all those who will be sharing their work during the Conference. This international exchange – of experience, ideas, theories, methodologies, case studies, contexts, findings and conclusions – is extremely important as we seek to build a sustainable future for our languages and for linguistic diversity worldwide.

I wish the XIX International Conference on Minority Languages every success.

**Professor Athro Medwin Hughes DL DPhil DPS FRSA**

**Vice-Chancellor of the University of Wales and the University of Wales Trinity Saint David.**



## Prif Siaradwyr / Plenary Speakers

### Yr Athro / Professor Fernand de Varennes

Fernand de Varennes yw Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Faterion Lleiafrifol. Fe'i penodwyd gan y Cyngor Hawliau Dynol gan ddechrau ar ei swyddogaethau ar 1 Awst 2017. Mae'n Athro Gwadd yn yr Université catholique de Lyon, Prifysgol Vytautas Magnus a Phrifysgol Genedlaethol Iwerddon, a bu'n Athro Gwadd yn Åbo Academy, Prifysgol Dato Bunka, Prifysgol Gwasanaeth Sifil Ethiopia, Prifysgol Gakushuin, Prifysgol Peking, Prifysgol Seikei, Universitas Pelita Harapan, Universitas Sam Ratulangi, Université de la Réunion, Prifysgol Hong Kong a Phrifysgol Pretoria.

Mae ei waith yn canolbwyntio ar hawliau dynol lleiafrifoedd yn ogystal ag atal gwrthdaro ethnig, hawliau mudwyr, y berthynas rhwng ethnigrwydd, hawliau dynol a democratiaethau, a'r defnydd o ffederaliaeth a mathau eraill o drefniadau ymreolaeth i gydbwysu buddiannau diwylliannol.

Mae ganddo dros 250 o gyhoeddiadau mewn 30 o ieithoedd.



Fernand de Varennes is the United Nations Special Rapporteur on Minority Issues. He was appointed by the Human Rights Council and assumed his functions on 1 August 2017. He is Visiting Professor at the Université catholique de Lyon, Vytautas Magnus University and the National University of Ireland and has been Visiting Professor at Åbo Academy, Dato Bunka University, Ethiopian Civil Service University, Gakushuin University, Peking University, Seikei University, Universitas Pelita Harapan, Universitas Sam Ratulangi, Université de la Réunion, University of Hong Kong, and the University of Pretoria.

His work and commitment focusses on the human rights of minorities, as well as the prevention of ethnic conflicts, the rights of migrants, the relationship between ethnicity, human rights and democracies, and the use of federalism and other forms of autonomy arrangements to balance competing cultural interests.

He has more than 250 publications globally in some 30 languages.

### Rosa Angelica Ramirez Rodriguez

Mae Rosa Angelica Ramirez Rodriguez yn arbenigo mewn Llywodraeth a Chysylltiadau Rhyngwladol yn yr Universidad Externado de Colombia, Bogotá.

Mae hi'n fenyw frodorol Kankuama o'r Sierra Nevada de Santa Marta (SNSM) ac mae'n weithgar gyda phobl frodorol Colombia ac yn gweithio ar eu rhan.

Mae ganddi brofiad sylweddol o weithio ym maes datblygu arweinyddiaeth yng nghyd-destun Pobloedd Frodorol. Mae ganddi ddiddordeb mewn materion sy'n ymwneud â datblygu, cynllunio a'r amgylchedd yn ogystal ag agweddau ethnig ar y gwrthdaro arfog. Mae ei harbenigedd academaidd hefyd yn ymwneud â chynllunio ymchwil, methodolegau ymchwil, dadansoddi data, llunio adroddiadau a data llyfryddiaethol yn y cyd-destunau hyn.

Mae hi'n credu'n gryf mewn rôl weithredol gan Bobloedd Frodorol yn natblygiad eu gwledydd.



Rosa Angelica Ramirez Rodriguez specialises in Government and International Relations at the Universidad Externado de Colombia, Bogotá.

She is an indigenous Kankuama woman from the Sierra Nevada de Santa Marta (SNSM) and is actively engaged in working with and for the Indigenous Peoples of Colombia.

She has significant experience in working in the field of leadership development in the context of Indigenous Peoples. She is interested in issues around development, planning and the environment as well as ethnic aspects of the armed conflict. Her academic expertise also lies in research design, methodologies, database analysis, report construction and bibliographical data in these contexts.

She is a firm believer in the role of Indigenous Peoples as fundamental actors in the development of their countries.

## Prif Siaradwyr / Plenary Speakers

### Yr Athro / Professor Vesna Crnić-Grotić

Mae Vesna Crnić-Grotić yn aelod ac yn gyn-gadeirydd Pwyllgor Arbenigwyr y Siarter Ewropeaidd ar gyfer leithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol, Cyngor Ewrop. Mae hi'n Athro mewn Cyfraith Ryngwladol ac yn Ddeon Cyfadran y Gyfraith, Prifysgol Rijeka, Croatia. Hi oedd Gadeirydd y Prif Gomisiwn Cyfraith, Cyngor Gwyddoniaeth Cenedlaethol Croatia a Chadeirydd y panel arbenigol ar gyfer gwyddoniaeth gyfreithiol yn Sefydliad Gwyddoniaeth Croatia. Yn 2013 – 2014 hi oedd yr Asiant ar gyfer Croatia yn y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol, Achos yn ymwneud â chymhwyso'r Confensiwn ar Atal a Chosbi Trosedd Hil-laddiad, Croatia v. Serbia. Yn 2003 a 2012 cafodd ei chynnwys ar y rhestr fer ar gyfer barnwr Llys Hawliau Dynol Ewrop.

Mae 2023 yn 25 mlwyddiant y Siarter Ewropeaidd ar gyfer leithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol a ddaeth i rym ym 1998.




Vesna Crnić-Grotić is a member and former chair of the Council of Europe's Committee of Experts of the European Charter for Regional and Minority Languages. She is a professor of International Law and the Dean of the Faculty of Law, University of Rijeka, Croatia. She was the chair of the Main Commission for Law of the National Council for Science in Croatia and the chair of the expert panel for legal science of the Croatian Science Foundation. In 2013 – 2014 she was the Agent for Croatia at the International Court of Justice, Case Concerning the Application of the Convention for the Prevention and Punishment of the Crime of Genocide, Croatia v. Serbia. In 2003 and 2012 she was shortlisted as a candidate for the judge of the European Court for Human Rights.

The year 2023 marks the 25th anniversary of the entry into force of the European Charter for Regional and Minority Languages.

### Yr Athro / Professor Durk Gorter

Mae Durk Gorter yn gyn Athro ymchwil Ikerbasque ym Mhrifysgol Gwlad y Basg, lle bu'n bennaeth ar Grŵp Ymchwil Donostia ar Addysg ac Amlieithrwydd (DREAM).

Mae'n ymchwilio i addysg, ieithoedd lleiafrifol Ewropeaidd a thirluniau ieithyddol. Ymhlith ei gyhoeddiadau mae *Minority Languages in the Linguistic Landscape*, *Minority Languages and Multilingual Education*, *Multilingual Education: Between language learning and translanguaging* a *Pedagogical Translanguaging* (2021, cyd-olygwyd gyda Jasone Cenoz). Mae llyfr ar y gweill ganddo ar *A Panorama of Linguistic Landscape Studies*. Dysgodd ar yr European Master in Multilingualism and Education (EMME) ac ef oedd prif olygydd y cyfnodolyn *Language, Culture and Curriculum*. Derbyniodd wobwr Ysgolhaig Nodedig mewn Amlieithrwydd gan y Gymdeithas Ryngwladol Amlieithrwydd. Roedd yn un o sylfaenwyr Rhwydwaith Mercator.



Durk Gorter is a former Ikerbasque research professor at the University of the Basque Country, where he was the head of the Donostia Research group on Education And Multilingualism (DREAM).

He researches education, European minority languages and linguistic landscapes. Among his publications are *Minority Languages in the Linguistic Landscape*, *Minority Languages and Multilingual Education*, *Multilingual Education: Between language learning and translanguaging* and *Pedagogical Translanguaging* (2021, co-authored with Jasone Cenoz). A book is forthcoming on *A Panorama of Linguistic Landscape Studies*. He taught in the European Master in Multilingualism and Education (EMME). He was the editor-in-chief of the journal *Language, Culture and Curriculum*. He received the award of Distinguished Scholar of Multilingualism from the International Association of Multilingualism. Durk was one of the founders of the Mercator Network.

## Pwyllgor Academaidd Rhyngwladol / International Scientific Committee

### Catrin Llwyd

(Cydlynnydd / Coordinator)  
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant  
University of Wales Trinity Saint David

### Elin Haf Gruffydd Jones

(Cadeirydd / Chair)  
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant  
University of Wales Trinity Saint David

### Catrin Redknap

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

### Cor van der Meer

Fryske Akademy  
Rhwydwaith Mercator Network

### Craig Willis

European Centre for Minority Issues  
Europa Universitat Flensburg

### Durk Gorter

Prifysgol Gwlad y Basg  
University of the Basque Country

### Edorta Arana Arrieta

Prifysgol Gwlad y Basg  
University of the Basque Country

### Enrique Uribe-Jongbloed

Prifysgol Caerdydd / Cardiff University

### Josu Amezaga Albizu

Prifysgol Gwlad y Basg  
University of the Basque Country

## Consortiwm Trefnu / Organising Consortium

**Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru:** Dr Angharad Elias, Nia Davies, Dr Martin Crampin, Dr Gwen Gruffudd; **Swyddfa Cynadleddau / Conference Office:** Chloe Parsons a'r tım; **Canolfan S4C Yr Egin:** Carys Ifan a'r tım; **Canolfan Gwasanaethau Cymraeg, Peniarth a Rhagoriaeth:** Dr Lowri Lloyd, Bethan Griffiths, Kara Lewis a'r tım; **Digital Services / Gwasanaethau Digidol:** Ben Thorne a'r tım.



 Prifysgol Cymru  
Y Drindod Dewi Sant  
University of Wales  
Trinity Saint David

 Peniarth  
.cymru

 RHAGOR  
iaith

CANOLFAN  
GWASANAETHAU  
CYMRAEG  
WELSH LANGUAGE  
SERVICES CENTRE

### Tystysgrif ˆl-Raddedig mewn Polisi a Chynllunio Iaith

Cymhwyster arloesol sy'n ymateb i agenda ieithyddol Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Cynigir cyfuniad o brofiadau academaidd ac ymarferol er mwyn dyfnhau dealltwriaeth o brif gysyniadau'r maes yn genedlaethol ac yn rhyngwladol gan ddarparu gwybodaeth gyfoes a chyd-destunau cymhwysol.

*A new Postgraduate Certificate in Language Policy and Planning available through the medium of Welsh in addition to our longstanding Masters Degree in Bilingualism and Multilingualism.*

**Modwl 1: Hanfodion Cynllunio Iaith**  
**Modwl 2: Hyrwyddo'r Gymraeg**

**Dyddiad: Hydref 2023**  
**Dull: Ar-lein**

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ˆ  
Kara Lewis, Rheolwr Rhaglen  
Rhagoriaith@pcydds.ac.uk

 RHAGOR  
iaith

01267 676772  
www.rhagoriaith.cymru  
rhagoriaith@pcydds.ac.uk  
Rhagoriaith

Gwasanaethu addysg yng Nghymru  
Serving education in Wales

## Bardd y Gynhadledd / Conference Poet

### Yr Athro / Professor Menna Elfyn

Mae Menna Elfyn yn fardd Cymraeg sydd â'i gwaith ei gyfieithu i dros ddeunaw o ieithoedd. Cyhoeddodd bedair cyfrol ar ddeg o farddoniaeth, nofelau i blant, libretti ar gyfer cyfansoddwyr o'r Unol Daleithiau ac yng ngwledydd Prydain yn ogystal â dramâu ar gyfer y teledu a'r radio. Menna yw Llywydd Wales PEN Cymru.




Menna Elfyn is an award winning poet who writes in Welsh and whose work has been translated into over eighteen languages. She has published fourteen collections of poetry, children's novels, libretti for UK and US composers as well as plays for television and radio. Menna is the President of Wales PEN Cymru.

## Llywyddion Anrhydeddus / Honorary Presidents

### Dr Ned Thomas

Cafodd Ned Thomas yrfa amrywiol fel awdur a newyddiadurwr, academydd a chyhoeddwr, ymgyrchydd iaith ac ymchwilydd ym maes ieithoedd lleiafrifol Ewrop. Ef oedd un o sylfaenwyr Rhwydwaith Mercator a'i chyfarwyddwr cyntaf yng Nghymru. Roedd yn aelod o'r pwyllgor drafftio ar gyfer Datganiad Byd Eang ar Hawliau Ieithyddol. Derbyniodd Radd er Anrhydedd gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac mae'n Gymrawd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Chymdeithas Ddysgedig Cymru. Cafodd ei Urddo i'r Wisg Las yn Eisteddfod Genedlaethol 2018.



Ned Thomas has had a varied career as a writer and journalist, academic and publisher, language activist and researcher in the field of European minorities. He was one of the founders of the Mercator Network and its first director in Wales. He was a member of the drafting committee of the Universal Declaration of Linguistic Rights. He received an Honorary Degree from the University of Wales Trinity Saint David and is a Fellow of the Coleg Cymraeg Cenedlaethol and of the Learned Society of Wales. He received the Blue Robe of the Gorsedd at the 2018 National Eisteddfod.

### Yr Athro / Professor Colin Williams

Cymrawd Ymchwil Hÿn, Sefydliad Von Hÿgel, Coleg Edmwnd Sant, Prifysgol Caergrawnt.

Athro er Anrhydedd, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Ei ddiddordebau ymchwil yw Cynllunio Ieithyddol a Pholisi Iaith, ac Adeiladu a Chymodi Ôl-Wrthdaro.



Senior Research Associate, Von Hÿgel Institute, St Edmund's College, University of Cambridge.

Honorary Professor, School of Welsh, Cardiff University. His research interests are Language Policy and Planning, and Post conflict Reconstruction and Reconciliation.

Diolch i chi ICML XVIII Gwlad y Basg ac edrychwn ymlaen at ICML XX Colombia

Eskerrik asko ICML XVIII Basque Country and we look forward to ICML XX Colombia


# Rhaglen y Gynhadledd a'r Crynodebau / Conference Programme and Abstracts

<https://www.uwtsd.ac.uk/cy/icml2023/>


<https://www.uwtsd.ac.uk/icml2023/>

@ICML2023

Defnyddiwch yr hashnod #ICML2023 is our Conference Hashtag



CYMRAEG



ENGLISH

**Daw'r Gynhadledd mewn cydweithrediad â Rhwydwaith Ymchwil Cydweithredol: Addysg Ddwyieithog a'r Gymraeg.** Cefnogir y Rhwydwaith gan Lywodraeth Cymru a'r aelod-sefydliadau canlynol: Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (Arweiniol), Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a'r Brifysgol Agored yng Nghymru.

**The Conference is organised in collaboration with the Collaborative Research Network: Welsh Language and Bilingual Education.** The CRN is supported by the Welsh Government and the following member-institutions: the University of Wales Trinity Saint David (lead), Aberystwyth University, Bangor University, Cardiff Metropolitan University, Cardiff University, Swansea University, University of South Wales, Wrexham Glyndŵr University and the Open University in Wales.


## Diolch




Y Ganolfan  
Dysgu Cymraeg  
Genedlaethol —  
National Centre  
for Learning Welsh



CANOLFAN  
S4C  
YR EGIN



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner



CANOLFAN  
GWASANAETHAU  
CYMRAEG  
WELSH LANGUAGE  
SERVICES CENTRE

